Ein Tîm, Ein Hiaith

Dysgu Cymraeg, gyda'n gilydd

Y prosiect

Gyda Chwpan y Byd ar y gorwel, rydyn ni'n ei gwneud hi'n haws nag erioed i gefnogwyr Cymru ddysgu a mwynhau'r Gymraeg, diolch i bartneriaeth newydd rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cyfle i gymryd rhan

1. Cyfle i bobl ddysgu ar-lein ar eu cyflymder eu hunain drwy'r Cwrs Chwaraeon a Hamdden. Mae'r cwrs rhad ac am ddim yma'n cynnwys 10 uned (tua 10 awr o ddysgu).
2. Mae'n bosib i ddechreuwyr gofrestru ar gyfer cwrs Cymraeg sy'n dechrau ym mis Ionawr. Gall pobl ddewis y diwrnod, yr amser a'r dafodiaith sydd fwyaf addas iddyn nhw. Mae cyrsiau ar gael mewn lleoliadau wyneb yn wyneb, neu mewn ystafelloedd dosbarth rhithwir. Mae'n bosib i bobl chwilio am y cwrs gorau iddyn nhw yma.
3. Gallwch fwynhau dysgu canu 'Hen Wlad Fy Nhadau' ac 'Yma o Hyd'.

Anogwch fwy o bobl i ddysgu Cymraeg drwy bostio negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol:

Cymraeg	Saesneg
Gyda @Cymru yn cymryd rhan yng Nghwpan y Byd, beth am ddefnyddio'r cyfle yma i annog rhywun i ddechrau dysgu #Cymraeg? Mae gan @learncymraeg LAWER o adnoddau i helpu ar thema pêl-droed⚽ https://dysgucymraeg.cymru/pel-droed/ #EinTîmEinHiaith	With @Cymru taking part in the World Cup, why not use this opportunity to learn some #Cymraeg? @learncymraeg have LOTS of resources to help you speak about pêl-droed ⚽ https://learnwelsh.cymru/football/ #OurTeamOurLanguage
Wrth i ni gefnogi @Cymru yng Nghwpan y Byd, beth am annog ffrindiau i wneud cwrs @learncymraeg chwaraeon a hamdden ar-lein AM DDIM ⚽ https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/cyrsiau-cymraeg-gwaith/chwaraeon-a-hamdden-rhan-1/ #EinTîmEinHiaith #GorauChwaraeCydChwarae	As we support @Cymru at the World Cup, why not follow @learncymraeg's FREE online sport and leisure course ⚽ https://learnwelsh.cymru/work-welsh/work-welsh-courses/sport-and-leisure-part-1/ #OurTeamOurLanguage #TogetherStronger

Cynnal digwyddiad neu'n nabod rhywun sydd â diddordeb mewn dysgu ychydig o Gymraeg? Mae adnoddau y gallwch eu rhannu.

- 'Canllaw i'r gêm' yn Gymraeg – yr holl ymadroddion Cymraeg pwysig y dylai pawb eu gwybod wrth wylio Cymru'n chwarae.
- Graffeg cyfryngau cymdeithasol gydag ymadroddion pêl-droed Cymraeg defnyddiol.
- Taflenni geiriau ffonetig - ar gyfer yr anthem genedlaethol Hen Wlad Fy Nhadau ac Yma o Hyd, cân swyddogol Cwpan y Byd 2022 Cymru.
- FIDEO: Beth mae'r Gymraeg yn ei olygu i Rubin Colwill o Dîm Cymru.
- Poster Ardal y Cefnogwyr ar gyfer eich lleoliad neu'ch cartref .

Lawrlwythwch yr uchod i gyd yma.

Dilynwch ni ar ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol:

Facebook @learncymraeg
Instagram @dysgucymraeglearnwelsh
Twitter @learncymraeg
TikTok @dysgucymraeg_learnwelsh
YouTube @dysgucymraeglearnwelsh

Beth am sgwrs?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, os hoffech chi gael y deunyddiau marchnata a nodir uchod neu os oes gennych ymholiad ar ran y wasg, e-bostiwch Gwilym Hughes gwilym.hughes@workingword.co.uk